# DEDDF IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU) 2020
# COD YMARFER DRAFFT AR FYNEDIAD I SAFLEOEDD AC YMGYSYLLTU AG UNIGOLION

## Cyflwyniad

1. Cafodd y Cod Ymarfer hwn ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r ddyletswydd yn adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Deddf 2020), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi cod ymarfer ynglŷn â cheisiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i safleoedd er mwyn ceisio barn unigolion[1] ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol[2], a phan gytunir i roi mynediad i'r safleoedd hynny, i ymgysylltu ag unigolion ar y safleoedd hynny at y diben hwnnw. Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i'r Cod, fel yr esbonnir ym mharagraff 10 isod. Yn ogystal, cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn fel canllaw perthnasol at ddibenion deddfwriaeth gofal sylfaenol[3] sy'n golygu bod dyletswydd cytundebol ar ddarparwyr gofal sylfaenol penodol[4] i ystyried y Cod.

2. Bwriad y tabl a'r siart lif o dudalen 15 ymlaen yw cynorthwyo i gymhwyso'r Cod.

3. Datblygwyd y ddogfen hon gan Weinidogion Cymru ar ôl iddynt roi sylw i gyfraniadau gan randdeiliaid, yn cynnwys cynrychiolwyr y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned [Corff Llais y Dinesydd], awdurdodau lleol, cyrff y GIG a darparwyr gwasanaethau, ac ymgynghoriad cyhoeddus. Caiff ei ategu gan ddogfennau perthnasol ond cwbl ar wahân sy'n cyffwrdd ar weithrediad Corff Llais y Dinesydd gan gynnwys y Canllawiau ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori

---

[1] Mae "unigolion" yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion.
[2] Diffinnir 'gwasanaethau iechyd' a 'gwasanaethau cymdeithasol' yn Adran 21 o Ddeddf 2020.
[3] Paragraff 123 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004; Paragraff 84 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006; Paragraff 82 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006.
[4] Mwy ym mharagraff 14 isod.

ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd a Chanllawiau Statudol ar Sylwadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd.

4. Amcan y Cod yw sicrhau, pan fo hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion yn ganolog i'r broses, y gall llais unigolion ar y cyd lywio'r modd y dylunnir ac y darperir gwasanaethau er mwyn gweddu'n well i'w hanghenion. Mae hyn yn gorwedd yng nghyd-destun datganiad polisi Corff Llais y Dinesydd a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf 2020, lle pennir sut y bwriedir hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a cheisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol, ac mae'n sefyll ochr yn ochr â swyddogaethau a gweithgareddau eraill i geisio safbwyntiau y gellir bwrw ymlaen â nhw o dan y polisi hwnnw.

5. Gall hyrwyddo a hwyluso ymgysylltu rhwng unigolion a Chorff Llais y Dinesydd drwy sicrhau mynediad i safleoedd perthnasol, helpu i gryfhau llais a chyfranogiad y cyhoedd o ran siapio'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau. Mae'r Cod hwn felly yn nodi'r disgwyliad y bydd y cyrff y mae'r Cod yn berthnasol iddynt yn cytuno i geisiadau rhesymol gan Gorff Llais y Dinesydd i gael mynediad at safleoedd perthnasol. Mae sicrhau y gall unigolion gymryd rhan yn y dasg o gynllunio a darparu gwasanaethau – yn cynnwys ar adeg eu darparu – yn un o'r uchelgeisiau allweddol sydd wrth wraidd sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Mae'n cyd-fynd ag egwyddorion y Safonau Iechyd a Gofal[5], Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yng nghyd-destun Deddf 2020, mae'n ymwneud ag amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd yn adran 13 a'r dyletswyddau cydweithredu yn adran 20 o'r Ddeddf.

6. **Yn unol â'r dull seiliedig ar hawliau ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, yn yr holl benderfyniadau a wneir ynglŷn â'r Cod hwn, dylid rhoi'r pwys mwyaf i fuddiannau a dymuniadau unigolion sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG neu wasanaethau cymdeithasol, ac unigolion y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt, a dylid blaenoriaethu cyfathrebu â nhw i gefnogi penderfyniadau o'r fath**. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl y bydd prosesau o ran ymweld/mynediad yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo cydweithredu tuag at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn hwyluso Corff Llais y Dinesydd i arfer ei swyddogaeth i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd o ran gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy geisio barn y cyhoedd am y gwasanaethau hyn. Gall Corff Llais y Dinesydd arsylwi'r gwasanaethau eu hunain yn atodol i'r swyddogaeth honno, a gall hyn lywio unrhyw sylwadau[6] y mae Corff Llais y Dinesydd y penderfynu eu gwneud mewn perthynas ag ymweld. Nid yw swyddogaethau Corff Llais y Dinesydd yn ymestyn i archwilio safleoedd na gwasanaethau.

## Diben

[5] Safonau iechyd a gofal | LLYW.CYMRU

[6] Gweler y Canllawiau Statudol ar Sylwadau a waned gan Gorff Llais y Dinesydd

7. Diben y cod yw cynnig fframwaith ar gyfer cael mynediad i safleoedd ac ymgysylltu ar draws amrywiaeth o leoliadau lle darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynorthwyo Corff Llais y Dinesydd i gyflawni ei amcan cyffredinol, sef cynrychioli buddiannau'r cyhoedd (gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion) mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a mynd i'r afael â swyddogaethau statudol perthnasol mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn parchu hawliau unigolion a darparwyr gwasanaethau.

8. Yn unol â'r paramedrau a bennir yn adran 19 o Ddeddf 2020, mae'r cod hwn yn cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â cheisiadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i safleoedd er mwyn ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a phan gytunir i roi mynediad i'r safleoedd hynny, i ymgysylltu ag unigolion yn y safleoedd hynny at y diben hwnnw. Mae "safle/safleoedd" yn golygu **unrhyw safle lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol[7] yng Nghymru neu fel arall[8]**, a allai gynnwys y mannau y caiff y gwasanaethau hynny eu comisiynu gan ddarparwyr trydydd parti neu eu darparu yng nghartrefi / anheddau preifat pobl[9]. Mae'r cod hwn yn pennu proses ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn ogystal â ffactorau y dylai awdurdodau lleol, ynghyd â chyrff y GIG a'r darparwyr a gomisiynir ganddynt, eu pwyso a'u mesur wrth ystyried ceisiadau am fynediad a ffactorau y dylai Corff Llais y Dinesydd eu hystyried wrth geisio ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain a hefyd wrth gynnal ymweliadau yn gyffredinol.

9. Y disgwyl yw y bydd y Cod yn helpu i wneud y canlynol: cryfhau llais unigolion; cynorthwyo Corff Llais y Dinesydd i gyflawni ei amcan statudol a'i swyddogaethau statudol yn effeithiol; cynorthwyo cyrff y GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau i gynllunio/monitro/adolygu a darparu triniaethau/gofal/cymorth trwy helpu i gasglu a lledaenu barn unigolion; ac ategu neu ymhelaethu ar y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i geisio adborth, gyda'r bwriad o wella gwasanaethau.

## I bwy mae'r cod hwn yn berthnasol?

10. Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i'r cod bob amser (adran 19(3)), a rhaid i gyrff y GIG[10] ac awdurdodau lleol Cymru roi sylw i'r cod (i'r graddau y bo'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (adrannau 19(3) ac 19(4) o Ddeddf 2022), megis wrth gomisiynu trydydd parti i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Gan fod modd i Gorff Llais y Dinesydd gyflwyno ceisiadau am fynediad i

---

[7] Fel y diffinnir yn Neddf 2020.
[8] Cyn belled bod darparu'r gwasanaethau hynny yn ymwneud ag arfer swyddogaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol perthnasol yn ymwneud â Chymru.
[9] Bydd rhai safleoedd yn darparu gwasanaethau iechyd a llesiant neu wasanaethau gofal cymdeithasol eraill ochr yn ochr â gwasanaethau sy'n cael eu diffinio fel 'gwasanaethau iechyd' neu 'wasanaethau cymdeithasol' yn Neddf 2020; nid yw hyn yn effeithio ar allu Corff Llais y Dinesydd i ofyn am fynediad i'r safleoedd hynny. I'r gwrthwyneb, nid yw'r Cod hwn yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle mae safleoedd/lleoliadau yn darparu gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniadau Deddf 2020, er efallai y bydd y darparwyr a Chorff Llais y Dinesydd yn dymuno ei ddefnyddio fel arfer da.
[10] Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig

unrhyw safle lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (fel y diffinnir yn Neddf 2020), efallai hefyd y bydd cyrff sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau am fynediad, a dylent roi ystyriaeth i'r Cod hwn wrth ystyried ceisiadau o'r fath. Dylid atgyfnerthu hyn yn nhrefniadau contractiol perthnasol y darparwyr. Mae'r cod hefyd yn ystyried amgylchiadau lle gall Corff Llais y Dinesydd ddymuno ymweld â phobl yn eu hanheddau preifat; yn yr achos hwn, mae'n nodi ffactorau penodol i Gorff Llais y Dinesydd eu hystyried.

11. Yn gyffredinol, mae "rhoi sylw i"[11] yn golygu y bydd y rhai hynny mae'r cod yn berthnasol iddynt yn gorfod bod yn gyfarwydd â'r cod a dangos eu bod yn ystyried ei egwyddorion wrth wneud penderfyniadau perthnasol. Er enghraifft, yn achos Corff Llais y Dinesydd, byddai penderfyniad perthnasol yn golygu penderfyniad i wneud cais am fynediad i safleoedd; ac yn achos cyrff y GIG neu awdurdodau lleol neu ddarparwyr, byddai penderfyniad perthnasol yn golygu penderfyniad i gytuno i'r cais mynediad, neu ei wrthod. Os bydd cyrff y mae'r cod yn berthnasol iddynt yn penderfynu gwyro oddi wrth y canllawiau a nodir yn y cod, dylai unrhyw wyriad o'r fath fod yn rhesymol ac yn briodol.

12. Trwy hyrwyddo a hwyluso ymgysylltu rhwng unigolion a Chorff Llais y Dinesydd, bydd modd helpu i gryfhau eu llais a sut y gallant gyfrannu at siapio'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i ddangos eu bod yn bodloni gofynion presennol i annog hyn, megis y gofynion a bennir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd, mae dull o'r fath yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill a roddir ar ysgwyddau cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn sgil Deddf 2020, sef: trefnu i dynnu sylw pobl sy'n derbyn, neu a allai dderbyn, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol at weithgareddau Corff Llais y Dinesydd (adran 17(1)) a threfnu i'r naill gynorthwyo'r llall i godi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau hynny, a chynorthwyo Corff Llais y Dinesydd i geisio barn pobl ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (adran 20).

## Sut mae'r cod yn berthnasol i wasanaethau a gomisiynir?

13. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl y bydd cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan yn rhoi sylw i'r cod, trwy gyfrwng eu trefniadau comisiynu contractiol.

[11] Mae'r term "rhoi sylw i" ganllawiau cyhoeddedig wedi bod yn destun trafodaeth helaeth mewn cyfraith achosion a dylai cyrff perthnasol gael cyngor cyfreithiol annibynnol am sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan eu hamgylchiadau penodol.

14. Mae gan ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau meddygol[12], deintyddol[13], offthalmig[14] neu fferyllol[15] ar ran Bwrdd Iechyd ddyletswydd cytundebol i ystyried y Cod yn nhelerau eu contract gyda'r Byrddau Iechyd Lleol.

15. Mewn gofal cymdeithasol, mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) y Cod Ymarfer, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn y fan hon, nodir ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn annog ac yn galluogi pawb i ymhél â chynllunio gwasanaethau a'r modd maent yn gweithredu er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Byddai hyn yn cynnwys hwyluso Corff Llais y Dinesydd i gael mynediad fel y gellir ceisio'u barn[16].

## Pryd bydd y cod yn berthnasol?

16. Bydd y cod yn berthnasol **pan fo Corff Llais y Dinesydd yn gwneud cais am fynediad i safleoedd lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, er mwyn ceisio barn unigolion ynglŷn â'r gwasanaethau hynny, a phan gytunir i roi mynediad o'r fath, i ymgysylltu ag unigolion yn y safleoedd hynny at y diben hwnnw.** Fel y nodir yn adran 19(2) o Ddeddf 2020, mae'r cod yn berthnasol i unrhyw safle lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (fel y diffinnir yn y Ddeddf). Nid yw'r mynediad hwn yn ymestyn i waith arolygu neu waith arsylwi ffurfiol mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

17. Pan fo unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar safle gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety (megis ysbyty neu gartref gofal) **wedi cysylltu â Chorff Llais y Dinesydd gan ei fod yn dymuno rhannu ei farn; neu pan fo Corff Llais y Dinesydd yn cynnig cymorth i unigolyn sy'n gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, cwyn o dan adran 16 o Ddeddf 2020 (trwy gynrychioli'r unigolyn hwnnw neu trwy ei gynorthwyo mewn modd arall)**, ni fydd angen gwneud cais am fynediad, ac ni fydd y Cod yn berthnasol. Fodd bynnag, bydd modd i'r holl bartïon ystyried yr arferion da a bennir yn y Cod hwn. O dan yr amgylchiadau hyn, gall yr unigolyn ddisgwyl cael cefnogaeth a chymorth gan Gorff Llais y Dinesydd, o fewn disgresiwn Corff Llais y Dinesydd, a byddai hyn yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb pan fo hynny'n briodol. Felly, dylid trin cynrychiolydd Corff Llais y Dinesydd fel ymwelydd neu eiriolwr yr unigolyn, a byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i leoliadau hwyluso'r trefniadau mynediad, o fewn cyd-destun eu gweithdrefnau ymweld eu

---

[12] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004

[13] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006

[14] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986

[15] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

[16] Ymhellach, mae Rhan 2 o'r Cod yn pwysleisio pa mor bwysig yw data ansoddol o ran llywio Asesiadau Anghenion y Boblogaeth a gynhelir ar y cyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Bydd hyn yn cynnwys gwrando ar farn unigolion ynghylch y profiad a gawsant o ofal a chymorth a'u barn ynghylch a yw hyn wedi cyfrannu at wella'u llesiant. Byddai hyn yn ymestyn i farn a safbwyntiau a fynegir ar y cyd trwy gyfrwng sylwadau a gyflwynir ac adroddiadau a gyhoeddir gan Gorff Llais y Dinesydd.

hunain. Mae hyn yn cyd-fynd â’r gofyniad yn adran 16(8) o Ddeddf 2020, sef y dylai Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â chymorth, roi sylw, lle y bo’n briodol, i bwysigrwydd ymgysylltu wyneb yn wyneb â’i staff, neu eraill sy’n gweithredu ar ei ran, a chydag unrhyw unigolyn y rhoddir unrhyw gymorth iddo o dan yr adran hon. Dylid gwneud cais am estyniad i ymweliad i ganiatáu ar gyfer ymgysylltu gydag eraill yn y lleoliad sydd ddim wedi gofyn eisoes am gael rhannu eu barn gyda Fwrdd Llais y Dinesydd, gan gyd-fynd â diben cyffredinol y Cod hwn.

## Egwyddorion allweddol

18. Mae’r Cod yn cydnabod y canlynol: amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd, sef cynrychioli buddiannau’r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a’i swyddogaethau o ran ceisio barn y cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; dyletswyddau cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gorff Llais y Dinesydd a gwneud trefniadau i gydweithredu ag ef; a’r angen i barchu preifatrwydd/hawliau unigolion a darparwyr gwasanaethau.

19. Un o egwyddorion allweddol y Cod yw y bydd pobl yn elwa ar gael cyfle i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd. Dylai cyrff y GIG ac awdurdodau lleol sy’n derbyn cais am fynediad roi ystyriaeth i fuddiannau a llesiant defnyddwyr y gwasanaeth neu breswylwyr y safle wrth ystyried y cais. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, fe fydd hi o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau neu breswylwyr y lleoliad gael cyfle i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd trwy gyfrwng ymweliad. Mae hyn yn creu rhagdybiaeth o blaid rhoi mynediad, a chyn belled y gofynnir am ymweliadau mewn ffordd sy'n briodol i natur y lleoliad (er enghraifft, gyda rhybudd mewn lleoliadau sensitif, megis y rhai sydd â mynediad rheoledig neu gyfleusterau cyhoeddus cyfyngedig), cyn belled â’u bod wedi’u hamseru’n briodol o fewn y diwrnod a’r wythnos, cyn belled â bod bwlch addas rhyngddynt a chyn belled ag y cânt eu cynnal gan wirfoddolwyr neu bersonél a hyfforddwyd yn briodol, disgwylir y dylid cytuno i fynediad o’r fath. Yn unol ag adran 17 o Ddeddf 2020, dylid gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo’r ymweliad (neu gynorthwyo Corff Llais y Dinesydd i’w hyrwyddo) o fewn y lleoliad ac ymhlith y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, eu teuluoedd a phobl â budd yn eu gofal a’u cymorth, er mwyn rhoi’r cyfle gorau i bobl rannu eu barn ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

20. Egwyddor allweddol arall yw y dylai Corff Llais y Dinesydd ystyried pa mor rhesymol yw ei geisiadau am fynediad (fel y nodir isod), gan roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi a gyhoeddir o dan adran 14 o Ddeddf 2020, gan nodi sut mae’n bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o’i swyddogaethau a cheisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol, a hefyd dylai ystyried pa mor ymarferol yw dulliau eraill o geisio barn pa bryd bynnag y bo cais am fynediad yn afresymol. Mae parch at hawliau unigolion o ran cael gofal a chymorth, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli’r mynediad i’w cartrefi a mannau preifat cyfwerth yn drydydd egwyddor allweddol o’r Cod.

21. Yn y paragraffau a ganlyn, nodir sut y dylid rhoi’r egwyddorion allweddol hyn ar waith yn ymarferol, yn amodol ar unrhyw brotocolau neu gytundebau lleol y gellir eu datblygu rhwng Corff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG, awdurdodau lleol a/neu ddarparwyr, er enghraifft, mewn perthynas ag ymweld ar y dydd.

## Gwneud cais am fynediad i safleoedd (pethau i’w hystyried a sut i wneud cais)

22. Yn amodol ar unrhyw drefniadau lleol y gall Corff Llais y Dinesydd eu gwneud, i wneud cais rhesymol am fynediad – gan gynnwys mynediad ar y diwrnod hwnnw – i adeiladau penodol, megis y rhai sy'n lleoliadau di-breswyl neu sydd â mynediad cyhoeddus agored[17], dylai Corff Llais y Dinesydd:

- Wneud ceisiadau ar lafar neu yn y cnawd (cyflwyno'r person arweiniol, cynghori am y cyfnod arfaethedig a sefydlu a oes unrhyw amgylchiadau a fyddai'n awgrymu yn erbyn ymweliad ar y pryd),
- Cyflwyno ei hun neu ofyn am gael mynediad yn ystod oriau gwaith y lleoliad,
- Trafod yn gryno a chytuno ar unrhyw ystyriaethau ymarferol a allai effeithio ar yr ymweliad[18]; a
- sicrhau bod y rhai sy’n cynnal yr ymweliad yn meddu ar yr hyfforddiant priodol, a bod archwiliadau priodol wedi’u cynnal arnynt[19]

23. Mae rhai mathau o leoliad yn fwy sensitif nag eraill a byddai angen dull gwahanol o wneud ceisiadau am fynediad. Byddai'r rhain yn lleoliadau megis y rhai mae pobl yn byw ynddynt[20], neu lle mae mynediad yn cael ei reoli[21], er enghraifft. (Am ystyriaethau sy'n benodol i geisiadau am fynediad i gartrefi pobl, gweler paragraff 27, a pharagraff 28 isod ar gyfer ceisiadau i gael mynediad i ardaloedd preifat pobl mewn lleoliadau preswyl eraill.) Yn amodol ar unrhyw drefniadau lleol y gall Corff Llais y Dinesydd a phartneriaid eu gwneud, i wneud cais rhesymol am fynediad, dylai Corff Llais y Dinesydd:

- Wneud ceisiadau ar ffurf sy'n briodol i'r lleoliad (er enghraifft, trafod ar lafar gyda'r lleoliad, gyda chadarnhad ysgrifenedig i ddilyn os oes angen), ac amlinellu'r dyddiad arfaethedig, yr amser bras a (lle bo'n bosibl) enw'r person arweiniol (ar gyfer rhai lleoliadau, yn enwedig y rhai sydd â chyfleusterau cyhoeddus cyfyngedig, gall hefyd fod yn briodol rhannu hyd disgwyliedig yr ymweliad, a nifer y bobl a fydd yn mynychu),

---

[17] Ysbytai cyffredinol, er enghraifft

[18] Er enghraifft, amseroedd bwyd wedi’u diogelu mewn wardiau, a chyfyngiadau a fyddai’n effeithio ar nifer yr ymwelwyr, etc

[19] Ac eithrio lle mae cymryd rhan yn yr ymweliad ynddo'i hun yn rhan o hyfforddiant y person hwnnw

[20] Gall fod rhai lleoliadau preswyl mawr gyda nifer o fannau cyhoeddus a mynediad agored y gallai'r darpariaethau ym mharagraff 22 fod yn fwy priodol iddynt

[21] Er enghraifft, canolfannau cyswllt clinigol 999 a chyfleusterau Timau Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus (HART)

- darparu cyfnod o rybudd pan fo hynny'n briodol i natur y lleoliad (er enghraifft, pum diwrnod gwaith ar gyfer lleoliadau preswyl[22]),
- gwneud cais am ymweliad yn ystod oriau gweithredu'r lleoliad ac ar adeg o'r dydd sy'n briodol i amgylchiadau'r lleoliad,
- trafod a chytuno gyda'r lleoliad drefniadau o ran ystyriaethau ymarferol, megis amseroedd bwyd mewn lleoliadau preswyl, gweithgareddau a gynlluniwyd ac ati,
- cynnig ymweliadau gyda bwlch rhesymol rhwng y cais ac unrhyw ymweliad a gynhaliwyd yn y gorffennol neu unrhyw ymweliad a gynhelir yn y dyfodol at ddibenion cyfatebol,
- (lle'n berthnasol) cytuno gyda'r lleoliad nifer yr ymwelwyr arfaethedig sy'n gymesur â maint y lleoliad a'i allu i dderbyn ymwelwyr, a
- sicrhau y bydd y rhai sy'n cynnal yr ymweliad yn meddu ar hyfforddiant priodol[23], a bod archwiliadau priodol wedi'u cynnal arnynt.

24. Mae'n bwysig nodi bod mynediad i safle, y mae'r Cod hwn yn berthnasol iddo, yn cynnwys "unrhyw" safle lle bydd gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu (fel y diffinnir yn Neddf 2020). Gall hyn gynnwys safle nad yw'n agored i'r cyhoedd, ond y gellir ei ddisgrifio fel safle sy'n darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl iddo gynnwys unrhyw safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl fel llety i weithwyr, neu i gynnal tasgau gweinyddol yn unig, ac felly nas defnyddir i ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ni fyddem chwaith yn disgwyl iddo gynnwys mynediad i safleoedd y tu allan i'r oriau y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynddynt.

25. Dylai ceisiadau am fynediad i safleoedd a weithredir gan drydydd parti, a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar ran corff y GIG neu awdurdod lleol gael eu trafod gyda'r darparwr[24] a'u dwyn at sylw'r corff neu'r cyrff comisiynu perthnasol (h.y. y bwrdd iechyd lleol neu'r awdurdod lleol), os gellir canfod pwy yw'r corff o dan sylw, a dylid anfon copïau o'r fath at y bwrdd iechyd lleol a/neu'r awdurdod lleol lle lleolir y safleoedd, os yw'n wahanol. Arfer da yw mynd ati'n rheolaidd (bob chwarter) i rannu bras gynlluniau o ymweliadau gyda byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru[25] fel y gellir cyfarwyddo'u cynlluniau a hwyluso'r arfer o rannu gwybodaeth (er enghraifft, gweithgarwch monitro contract y bwriedir ei wneud gan gyrff y GIG neu awdurdodau lleol a fyddai'n golygu ymweld ag adeiladau). Yn yr un modd, byddai'n arfer da i Gorff Llais y Dinesydd gael ei gynghori, lle mae cynlluniau ymweliadau yn hysbys, o unrhyw newid neu darfu mewn lleoliadau a fyddai'n effeithio ar y cynlluniau hynny.

---

[22] Mewn lleoliadau sy'n darparu ar gyfer pobl a all fod angen mwy o amser i brosesu gwybodaeth yn ymwneud ag ymweliadau arfaethedig, er enghraifft pobl ag anableddau dysgu, efallai y byddai cyfnodau hirach yn briodol
[23] Ac eithrio lle mae cymryd rhan yn yr ymweliad ynddo'i hun yn rhan o hyfforddiant y person hwnnw
[24] Er enghraifft, contractwr fferyllfa, ar gyfer fferyllfeydd, neu Unigolyn Cyfrifol ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol
[25] Hefyd, o bosib, y Comisiwn Ansawdd Gofal a Healthwatch England ar gyfer ymweliadau dros y ffin

26. Pan ymddengys ei bod yn annhebygol y bydd cais arfaethedig yn bodloni unrhyw un o’r meini prawf uchod, fel y’u nodir uchod, dylai Corff Llais y Dinesydd a’r darparwr/lleoliad weithio gyda’i gilydd i nodi neu asesu pa mor ymarferol fyddai defnyddio dulliau eraill o geisio barn y tro hwnnw (gan roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf 2020).

27. Pan fo gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu ym **mhreswylfa breifat yr unigolyn** e.e. nyrsys ardal; ymwelwyr iechyd; cymorth cartref; lleoliadau oedolion; a gofal maeth, a phan fo Corff Llais y Dinesydd, ar ôl ystyried yr opsiynau ymgysylltu sydd ar gael iddo, o’r farn y byddai’n ddymunol siarad â’r unigolyn yn ei gartref ei hun (er enghraifft, gan fod yr unigolyn yn annhebygol o allu cael mynediad at ddulliau ymgysylltu amgen), rhaid cytuno ar fynediad i’r safleoedd hynny gyda’r unigolyn (yn ogystal â pherchennog-meddiannydd y breswylfa, os yw hwnnw’n berson gwahanol). Dylid gwneud hyn mewn modd sy’n ystyriol o drawma[26], gan sicrhau bod hawliau’r unigolyn yn ystyriaeth ganolog, a rhaid nodi’n glir yn y cais nad oes unrhyw bwysau ar y perchennog/meddiannydd i gytuno. Pan fo pobl yn cael eu cefnogi gan eu teuluoedd neu gynrychiolydd/eiriolwr, dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y broses o gael cytundeb. Dylid gwneud trefniadau priodol hefyd o ran cydsynio lle nad oes gan bobl alluedd[27]. Mewn achoson o’r fath, dylai Corff Llais y Dinesydd fod yn fodlon ei fod yn ymgymryd â’i swyddogaethau yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, fel Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Gall Corff Llais y Dinesydd ofyn am fanylion gan ddarparwyr gwasanaethau unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi rhoi caniatâd i rannu eu data at ddibenion galluogi i’r Corff gysylltu â nhw. Wrth wneud hynny, bydd angen i’r Bwrdd a darparwyr sicrhau eu bod yn fodlon eu bod yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â galluedd a diogelu data. Fel arall, gallai'r darparwr gwasanaethau rannu gwybodaeth gyswllt ar gyfer Corff Llais y Dinesydd gyda'i ddefnyddwyr gwasanaethau i hwyluso gwneud cyswllt â Chorff Llais y Dinesydd yn uniongyrchol. Dylai cynrychiolwyr Corff Llais y Dinesydd ail-gadarnhau, gyda’r unigolyn (neu gynrychiolydd perthnasol) yn uniongyrchol, y cydsyniad ar gyfer cael cyswllt, ac yna trefnu’r ymweliad arfaethedig gyda’r unigolyn (neu gynrychiolydd perthnasol), a hefyd gyda’r perchennog/meddiannydd (os yw’n berson gwahanol). Wrth drefnu’r ymweliad, gellir hefyd ystyried yr angen i’r unigolyn gael cymorth, os yw hyn yn berthnasol, a gofynion ymarferol eraill, drwy gysylltu â’r darparwr yn ôl yr angen. Pan fo ymweliadau’n cael eu cynnal mewn preswylfa breifat, dylid dilyn yr ‘egwyddorion ar gyfer ymgysylltu ag unigolion pan gytunir i roi mynediad’, fel y nodir ar dudalen 9 isod; a rhaid cynnal ymweliadau gyda pharch at hawliau Erthygl 8 yr unigolyn i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol.

28. Yn yr un modd, wrth ymweld â lleoliadau preswyl ac eithrio preswylfeydd preifat (er enghraifft, cartrefi gofal neu ganolfannau teulu preswyl), rhaid cytuno gyda’r unigolyn y gellir cael mynediad i **leoedd preifat unigol y preswylydd**. Dylid gwneud hyn mewn modd sy’n ystyriol o drawma gyda hawliau’r unigolyn yn ystyriaeth ganolog, a rhaid nodi’n glir wrth wneud y cais nad oes pwysau arnynt i

[26] Gweler: Cymru sy’n Ystyriol o Drawma (Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (traumaframeworkcymru.com))

[27] Gweler: Mental Capacity Act Code of Practice - GOV.UK (www.gov.uk)

gytuno. Os bydd pobl yn cael eu cefnogi gan eu teuluoedd neu gan gynrychiolydd/eiriolwr, dylid cynnwys y rhain yn y broses o ddod i gytundeb. Fel y nodwyd ym mharagraff 27 uchod, dylid gwneud trefniadau priodol hefyd mewn perthynas â chydsyniad pan fydd gan bobl ddiffyg galluedd. Tra byddir yn y lle preifat hwnnw, unwaith eto dylid dilyn yr 'egwyddorion ar gyfer ymgysylltu ag unigolion pan gytunir i roi mynediad', fel y nodir ar dudalen 10 isod; a rhaid cynnal ymweliadau gyda pharch at hawliau Erthygl 8 yr unigolyn i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol.

29. Pan fo gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu i **unigolion o fewn yr ystâd ddiogel**, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth, yn ogystal â Charchar Ei Fawrhydi neu safle cymeradwy'r awdurdod lleol, gytuno i roi mynediad. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle caiff safleoedd practis, fel meddygfeydd symudol, eu defnyddio. Mae'n hanfodol cael cytundeb Carchar Ei Fawrhydi neu safle cymeradwy'r awdurdod lleol cyn y gellir bwrw ymlaen â'r ymweliad arfaethedig. Os cytunir i roi mynediad, dylid dilyn yr 'egwyddorion ar gyfer ymgysylltu ag unigolion pan gytunir i roi mynediad' i'r graddau mwyaf posibl, fel y nodir isod, a hefyd dylid dilyn gofynion/polisïau ymweld perthnasol y lleoliad o dan sylw.

30. Yn achos **gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety** ac a ddefnyddir yn unswydd ar gyfer plant a/neu bobl ifanc o dan 18 oed (e.e. cartrefi gofal i blant), mae'r darpariaethau cyffredinol uchod yn berthnasol. Yn unol â'r disgwyliad cyffredinol y bydd ymgysylltiad â phlant yn cael ei gynnal gan roi sylw priodol i'w hawliau, dylid ceisio cydsyniad y plentyn ei hun ar gyfer ymgysylltu ag ef ar y safle, os yw'n meddu ar y cymhwysedd cyfreithiol angenrheidiol i roi ei gydsyniad, neu dylid ceisio cydsyniad gan oedolyn cyfrifol. Dylid gwneud trefniadau priodol hefyd i gymryd rhan mewn unrhyw ddarpariaeth eirioli cyfredol ar gyfer y plentyn neu berson ifanc.

### Ystyried ac ymgysylltu â chais am fynediad i safleoedd

31. Rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Cod hwn wrth ymateb i geisiadau am fynediad; a thrwy gyfrwng eu trefniadau contractiol, dylent sicrhau bod y cyrff a gomisiynir ganddynt yn gwneud yr un peth. (Mae'n bosibl y bydd pob un o'r cyrff hyn yn derbyn ceisiadau i ddarparu mynediad i safleoedd ar gyfer ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.) I osgoi unrhyw amheuaeth, y cyrff perthnasol[28], yn hytrach na staff/ymarferwyr unigol, fydd yn gyfrifol am ofynion yn ymwneud â cheisiadau Corff Llais y Dinesydd am fynediad, gan gynnwys penderfynu ar geisiadau o'r fath a hwyluso'r mynediad a gytunwyd. Efallai y byddant am gytuno ar brotocolau lleol gyda Chorff Llais y Dinesydd i symleiddio'r ffordd y mae'n trafod ceisiadau am fynediad.

32. Fel y nodir ym mharagraff 19 uchod, dylai cyrff sy'n derbyn cais am fynediad roi ystyriaeth i ddymuniadau, buddiannau a llesiant defnyddwyr y gwasanaeth neu breswylwyr y safle wrth ystyried y cais. Dylai hawliau dynol yr unigolion dan sylw (er enghraifft, eu hawliau Erthygl 8 i barch at fywyd preifat a theuluol), p'un a

[28] Er enghraifft, mewn perthynas â fferyllfeydd, contractwr y fferyllfa

ydynt wedi rhoi eu caniatâd ac urddas unigolion fod yn ystyriaeth hollbwysig, a dylai cyrff weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i geisio trefnu ymweliadau i reoli neu osgoi unrhyw faterion yn hyn o beth. Mae er budd cyffredinol i bobl gael cyfle i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd ac, o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hi o fudd i'r defnyddwyr neu'r preswylwyr gael cyfle i wneud hynny drwy gyfrwng ymweliad, os dymunant wneud hynny. Felly, dylai ceisiadau rhesymol gael eu cytuno fel arfer, a dylai fod ffocws ar weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd (a rhannu gwybodaeth berthnasol ag ef) i ddod o hyd i ffyrdd ymlaen lle na ellir cytuno ar geisiadau ar unwaith.

33. Wrth ystyried unrhyw gais am fynediad, bydd yn bwysig hefyd i'r gwasanaethau gael eu darparu a'u rhedeg mewn modd effeithiol, gan weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i osgoi achosi unrhyw darfu annerbyniol pan fo modd.

34. Wrth ystyried ceisiadau am fynediad, dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw amgylchiadau sy'n ymwneud â mynediad i'r math hwnnw o leoliad (e.e. a oes yna ardaloedd cymunol addas y gellir eu defnyddio, unrhyw faterion tebygol o ran diogelu cyfrinachedd neu breifatrwydd eraill os oes gan y safle statws diogel a'r gofynion mynediad cysylltiedig ac ati) a rhannu'r rhain mewn trafodaeth gyda Chorff Llais y Dinesydd fel y gellir eu hystyried, a'u goresgyn os yw'n bosibl, wrth gynllunio ymweliadau. Ni fyddai cwestiynau preifatrwydd, er enghraifft, yn rheswm dros wrthod ymweliad pe bai pawb dan sylw wedi rhoi eu caniatâd. Ymhellach, dylid ystyried iechyd a diogelwch a ffactorau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd, yn cynnwys statws heintus/caeedig lleoliadau preswyl, a lleoliadau eraill lle gallai hyn fod yn berthnasol. Lle gallai unrhyw un o'r ffactorau hyn achosi problemau ar gyfer ymweliad, dylai cyrff gymryd camau, mewn trafodaeth â Chorff Llais y Dinesydd, i nodi a oes modd goresgyn y rhain yn hytrach na gwrthod ymweliad. Mae rhesymau yn ymwneud ag amgylchiadau'r lleoliad, a allai efallai gyfiawnhau gwrthod mynediad, yn cynnwys mater rheoli heintiau, marwolaeth diweddar unigolyn neu farwolaeth sydd ar fin digwydd, neu risg uniongyrchol i ddefnyddiwr gwasanaeth, aelod staff neu gynrychiolydd Bwrdd Llais y Dinesydd. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

35. Bwriad y meini prawf ar gyfer ceisiadau rhesymol, a nodir uchod, yw helpu Corff Llais y Dinesydd a darparwyr/lleoliadau i weithio gyda'i gilydd i gyflawni trefniadau ymweld sy'n hyrwyddo hawliau unigolion (e.e. i dderbyn ymweliad ai peidio, yn ôl eu dewis) a sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n effeithiol. Pe na ellir bodloni'r meini prawf, hyd yn oed ar ôl trafodaeth i'w goresgyn, efallai y byddai'n rhesymol gwrthod y cais mynediad. Pe bai cais mynediad yn cael ei wrthod, dylid cyflwyno rheswm bob amser. Dylai'r corff ymateb yn ddi-oed (er enghraifft o fewn pum diwrnod gwaith os yw'r cais yn un syml, ac yn sicr cyn yr amser y bwriedir cynnal yr ymweliad arfaethedig, yn achos ymweliadau gyda rhybudd), gan nodi'r rhesymau dros wrthod y cais a chynnig dewis arall (er enghraifft, amser neu ddyddiad gwahanol, neu ddull ymgysylltu arall). Yn achos darparwr a gomisiynwyd, gall fod yn briodol copïo neu dynnu hyn at sylw'r corff comisiynu perthnasol.

## Ymgysylltu ag unigolion pan gytunir i roi mynediad

36. Wrth ymgysylltu ag unigolion (yn cynnwys staff) mewn sefyllfaoedd pan gytunwyd i roi mynediad, dylid dilyn yr egwyddorion canlynol.

37. Pan gytunir i roi mynediad i safleoedd ac eithrio anheddau preifat, dylai'r corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am y safle gymryd camau rhesymol i helpu'r unigolion i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd. Gallai'r camau hyn gynnwys y canlynol:
    - os rhoddir rhybudd, hyrwyddo'r ymweliad arfaethedig (a'i ddiben) o fewn y lleoliad,
    - darparu deunydd esboniadol a ddarperir gan Gorff Llais y Dinesydd yn ymwneud â'r corff a diben unrhyw ymweliad[29],
    - os rhoddir rhybudd, rhoi gwybodaeth i unigolyn arweiniol Corff Llais y Dinesydd a fydd yn ymweld, cyn i'r ymweliad gael ei gynnal, er mwyn rhoi gwybod iddo am ofynion mynediad, atal a rheoli heintiau, a chod gwisg y lleoliad,
    - trefnu bod aelod priodol o staff wrth law i gyfarch ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd, eu cyflwyno i'r safle a rhoi gwybod iddynt am unrhyw ystyriaethau perthnasol,
    - neilltuo lle/cyfleusterau priodol y gall ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd eu defnyddio tra byddant ar y safle,
    - trefnu bod aelod o staff neu wirfoddolwr wrth law i dywys ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd o amgylch y safle a'u cyflwyno i bobl berthnasol os yw hyn yn berthnasol,
    - lle bo modd, cynorthwyo pobl yn y lleoliad a chanddynt anghenion cyfathrebu ychwanegol neu anghenion eraill i ymgysylltu ag ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd, os yw'r person hwnnw'n dymuno gwneud hynny.

38. Wrth gael mynediad i safle o'r fath, efallai y byddai'n ddefnyddiol i ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd nodi sut brofiad mae pobl yn ei gael o'r gwasanaeth trwy fynd ati i wylio a gwrando a deall amgylchedd y lleoliad, er mwyn cynnig cyd-destun i'r safbwyntiau a fynegir yn ddiweddarach a llywio swyddogaeth gynrychioli Corff Llais y Dinesydd. Mae arsylwi ar y gwasanaethau eu hunain yn ategol i ddiben ymweliadau Corff Llais y Dinesydd i geisio (ac yna cynrychioli, yn ôl yr angen) farn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Fel y nodir uchod, nid oes swyddogaeth arolygu yn perthyn i Gorff Llais y Dinesydd.

39. Dylai Corff Llais y Dinesydd sicrhau bod gan y rhai sy'n cynnal yr ymweliad (staff/aelodau/gwirfoddolwyr) awdurdod addas, a'u bod yn cario ac yn dangos tystiolaeth o'r awdurdod hwnnw i ymweld â'r safle ar ran Corff Llais y Dinesydd (pan ofynnir iddynt ddangos tystiolaeth o'r fath). Efallai y bydd yn briodol iddynt wisgo bathodyn neu ddull adnabod gweladwy cyffelyb. Dylai unrhyw ddull adnabod a gyflwynir nodi unrhyw gyfyngiadau sy'n perthyn i'r rôl ymweld, megis am faint o amser y'u penodir i'r rôl, unrhyw gyfyngiadau daearyddol ac ati. Mewn lleoliadau ac eithrio anheddau preifat, cyn dechrau ar eu hymweliad, dylai ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd gyflwyno'u hunain i'r staff sydd wrth y llyw. Fel y nodwyd o dan baragraff 33 uchod, dylai gwybodaeth megis cod gwisg neu

[29] Os yw'n bosibl, dylai deunyddiau o'r fath fod mewn fformatau priodol, gan gynnwys fformatau hawdd eu darllen

ystyriaethau ynghylch mynediad gael eu rhannu gan y lleoliad lle bo'n bosibl i lywio cynllunio ymweliadau; byddai hefyd yn arfer da iddynt gysylltu â'r safle cyn yr ymweliad i gadarnhau a oes unrhyw faterion annisgwyl a allai fod angen eu hystyried wrth gynllunio'r ymweliad.

40. Dylai Corff Llais y Dinesydd sicrhau bod y rhai sy'n cynnal ymweliadau wedi cael hyfforddiant priodol[30] ar gyfer unrhyw leoliad y byddant yn ymweld ag o, ac ar gyfer anghenion yr unigolion y dymunant siarad â nhw. Hefyd, dylid sicrhau bod archwiliadau DBS priodol wedi'u cynnal, a'u bod yn cael cymorth ac arweiniad priodol gyda'u hymweliadau. Dylid gwneud darpariaeth hefyd i gefnogi unigolion i fynegi eu dymuniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu iaith arall o'u dewis os yw hynny'n bosibl, ac ystyried hygyrchedd cyfathrebu i eraill, fel y rheini nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar.

41. Ar ôl i ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd gyrraedd y lleoliad neu annedd breifat, dylent gyflwyno'u hunain ac esbonio i'r unigolion sy'n bresennol yr hyn y dymunant siarad amdano a sut maent yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gânt – er enghraifft, esbonio y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda sylwadau a anfonir at gorff y GIG neu awdurdod lleol, neu y gwneir defnydd o'r wybodaeth mewn sylwadau o'r fath. Dylid egluro sut bydd data personol yr unigolyn yn cael ei ddiogelu. Byddai'n arfer da cyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf taflen y gellid ei dosbarthu cyn neu yn ystod yr ymweliad.

42. Bydd Corff Llais y Dinesydd yn gosod safonau ar gyfer ei weithgareddau ar ymweliad, gan fyfyrio y dylid eu cynnal gyda sensitifrwydd a gofal, gan fod yn gwrtais gyda'r bobl o dan sylw. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen parchu, cynnal a hyrwyddo urddas, preifatrwydd, hawliau dynol (megis diogelu hawliau Erthygl 8 yr unigolyn i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol) a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth a phobl eraill y bydd yr ymwelwyr yn ymgysylltu â nhw, yn cynnwys aelodau staff perthnasol. Bydd angen cymryd yr holl gamau priodol er mwyn sicrhau iechyd a llesiant y rhai sy'n ymweld â'r bobl oddi mewn i'r lleoliad. Hefyd, bydd angen cymryd camau i osgoi tarfu ar y modd y darperir gwasanaethau; bydd hyn yn cynnwys ystyried terfynu neu aildrefnu ymweliad (neu drefnu dull ymgysylltu arall) pe bai rhywbeth annisgwyl yn digwydd.

43. Yn ogystal, dylai ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd ddisgwyl cael eu trin â chwrteisi yn y lleoliadau y byddant yn ymweld â nhw, cael eu trin yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt ac unrhyw ragofalon iechyd a diogelwch perthnasol, a chael eu cefnogi i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

44. Dylai ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd fynd ati bob amser i ofyn am gydsyniad unigolion cyn iddynt ddechrau pob cam o'r gwaith ymgysylltu. Wrth ymgysylltu ag unigolion, dylai ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd ddefnyddio safonau ymweld perthnasol Corff Llais y Dinesydd, gan gynnwys:
   - rhoi eu safbwyntiau a'u safbwyntiau personol eu hunain i'r naill ochr,
   - trin y bobl y byddant yn ymgysylltu â nhw gyda pharch,

[30] Ac eithrio lle mae cymryd rhan yn yr ymweliad ynddo'i hun yn rhan o hyfforddiant y person hwnnw

- cynorthwyo'r rhai y byddant yn ymgysylltu â nhw i fynegi eu barn,
- eu galluogi i ddefnyddio dull cyfathrebu o'u dewis, a
- gwrando'n astud ar y safbwyntiau a fynegir, eu cymryd o ddifrif a'u cofnodi mewn modd diduedd a chywir.

45. Pe bai unigolion yn gwrthod cymryd rhan neu'n tynnu eu cydsyniad yn ôl, dylid parchu hyn a dylid rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r unigolion hynny yn syth. Os yw unigolion wedi darparu gwybodaeth yn ystod cyfnod o ymgysylltu a'u bod nhw wedyn yn dod â'r cyfnod hwn i ben, dylid parchu eu dymuniadau o ran yr wybodaeth honno. Yn yr un modd, efallai y bydd unigolyn yn nodi y byddai'n well ganddo ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd y tu allan i'w leoliad presennol; mewn achosion o'r fath, byddai yn unol ag amcanion Corff Llais y Dinesydd i ystyried ffyrdd o hwyluso hyn lle bo'n bosibl (gyda'r darparwr/lleoliad yn ôl yr angen).

46. Mewn perthynas â lleoliadau preswyl, fel cartrefi gofal, mae'r cartref gofal cyfan yn gartref i'r bobl sy'n byw yno, a dylid cadw hyn mewn cof wrth gynllunio ymweliad. Yn benodol, mae lleoedd preifat unigol y rhai sy'n preswylio mewn safleoedd preswyl (megis cartrefi gofal) yn cyfateb i breswylfeydd preifat. Dim ond lle mae'r unigolyn yn eu gwahodd neu wedi eu gwahodd y dylai ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd fynd i mewn i'r lleoedd hynny. Pan fo ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd mewn lleoedd o'r fath, dylai Corff Llais y Dinesydd sicrhau eu bod yn gwybod bod y lleoedd hynny'n cyfateb i breswylfeydd preifat ac y dylent ymddwyn fel pe baent yng nghartref yr unigolyn. Wrth gytuno i fynd i mewn i le preifat y preswylydd, dylai ymwelydd Corff Llais y Dinesydd wneud hynny trwy gydymffurfio â gweithdrefnau diogelu Corff Llais y Dinesydd ei hun, ac yn amodol ar gynnal asesiad risg priodol, a dylai wastad barchu hawliau Erthygl 8 yr unigolyn i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol.

47. Fel y nodir uchod, bydd ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn golygu elfen o arsylwi, ond nid yw hynny'n ymestyn i arolygu'r modd y darperir gwasanaethau – swyddogaeth yr Arolygiaethau perthnasol yw hynny. Ond yn ystod yr ymweliad, mae'n bosibl y deuir ar draws materion y dylid tynnu sylw cyrff eraill atynt, megis corff y GIG neu'r awdurdod lleol sy'n comisiynu'r gwasanaeth, neu'r Arolygiaethau perthnasol. Os felly, dylai Corff Llais y Dinesydd drefnu i wneud hynny'n briodol ac yn ddi-oed, yn unol â'r memoranda cyd-ddealltwriaeth priodol, neu yn unol â chytundebau neu brotocolau eraill. Dylai Corff Llais y Dinesydd gyfeirio pryderon diogelu (pe bai ymwelydd Corff Llais y Dinesydd yn pryderu y gallai rhywun, plentyn neu oedolyn, fod mewn perygl o ddioddef niwed, camdriniaeth neu esgeulustod) at adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dylid anfon copi hefyd at yr arolygiaeth berthnasol. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru:

Sut i roi gwybod am amheuaeth o gam-drin, niwed, neu esgeulustod (diogelu pobl) | LLYW.CYMRU

48. Pan fo Corff Llais y Dinesydd yn dymuno mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn staff ar y safle, dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer hyn ar yr un pryd â thrafod unrhyw gais am fynediad cyffredinol, fel y gellir (os yn berthnasol) cael cytundeb y staff ymlaen llaw, a/neu er mwyn sicrhau y bydd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflwyno'r safbwyntiau hynny (i osgoi tarfu ar y modd y darperir gwasanaethau). Pe bai'r staff yn dewis cyflwyno'u barn yn ddigymell ac o'u gwirfodd, heb i hynny darfu ar ddarparu'r gwasanaeth, bydd yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer ymgysylltu ag unigolion yn berthnasol.

## Sut y gellir dangos y rhoddir sylw i'r cod

49. Efallai y bydd cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn nodi i ba raddau maent wedi rhoi sylw i'r cod mewn adroddiadau eraill sy'n dangos sut maent yn ymgysylltu â llais unigolion, neu sut maent yn cryfhau'r llais hwnnw (er enghraifft, sut yr aethant ati i gefnogi ymweliadau y cytunwyd arnynt, sut yr aethant ati i godi ymwybyddiaeth o ymweliadau o'r fath, neu sut y gwnaethant ddelio â cheisiadau mynediad a wrthodwyd). Byddai hyn yn berthnasol i adroddiadau blynyddol cyrff y GIG mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd (dyletswydd sy'n ofynnol o dan Ran 2 o Ddeddf 2020), a gallai fod yn berthnasol i'r bennod 'sut mae pobl yn siapio ein gwasanaethau?' mewn adroddiadau blynyddol a lunnir gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

50. Efallai y bydd Corff Llais y Dinesydd yn ymgorffori hyn yn ei adroddiad blynyddol. Yn ôl Atodlen 1 o Ddeddf 2020, mae'n ofynnol i'r Corff anfon yr adroddiad hwn at Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Senedd.

## Pan na chytunir i roi mynediad

51. Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw bob amser i'r Cod hwn (adran 19(3)), a rhaid i gyrff y GIG[31] ac awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i'r Cod hwn (i'r graddau y bo'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (adrannau 19(3) ac 19(4) o Ddeddf 2020). Pe bai corff y GIG neu awdurdod lleol neu gorff arall yn gwrthod cytuno i roi mynediad, ar ôl rhoi sylw i'r cod hwn, ni fydd mynediad o'r fath yn cael ei ganiatáu.

52. Ond fel y nodir uchod, os bydd cyrff y GIG neu awdurdodau lleol neu gyrff eraill yn gwrthod rhoi mynediad, ar ôl ystyried y canllawiau ym mharagraffau 32-34 uchod, rhaid iddynt esbonio'r rheswm sydd wrth wraidd y penderfyniad. Dylai'r corff ymateb yn ddi-oed (er enghraifft, o fewn pum diwrnod gwaith ar gyfer cais syml, ac yn sicr cyn yr amser y bwriedir cynnal yr ymweliad arfaethedig, yn achos ymweliadau gyda rhybudd), ac yn ychwanegol at nodi'r rhesymau dros wrthod y cais, yn ysbryd gweithio mewn modd adeiladol gyda Chorff Llais y Dinesydd, dylai gynnig dewis arall (er enghraifft, amser neu ddyddiad gwahanol, neu ddull ymgysylltu arall). Os na cheir ateb o fewn y cyfnod hwn, gall Corff Llais y

[31] Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig

Dinesydd godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r darparwr neu gontractwr, ac yna gyda chomisiynydd y gwasanaeth.

## Pan na chytunir i roi mynediad: Y canlyniadau posibl sydd ynghlwm wrth fethu â rhoi sylw i'r Cod

53. Os na chytunir ar fynediad a bod y corff perthnasol wedi methu â rhoi sylw i'r Cod wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, gall hyn arwain at y canlynol:

i A hwythau'n awdurdodau cyhoeddus, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn destun hawliad trwy gyfrwng adolygiad barnwrol pe na baent wedi rhoi sylw i'r Cod wrth benderfynu a ddylid caniatáu ceisiadau mynediad.

ii Pe bai'r rhai mae cyrff y GIG neu awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau ganddynt yn gwrthod rhoi caniatâd, efallai y byddant yn torri eu rhwymedigaethau contractiol pe na baent yn cymhwyso egwyddorion y Cod yn briodol (pan fo'r egwyddorion hynny yn rhan o'u contract fel ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol). Gall Corff Llais y Dinesydd godi achosion o wrthod mynediad dro ar ôl tro gyda'r cyrff comisiynu.

iii Er nad oes gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru nac Arolygiaeth Gofal Cymru rôl o ran gorfodi'r ddyletswydd i roi sylw i'r Cod, pe bai darparwr gwasanaeth yn ymddwyn mewn ffordd sy'n rhoi llesiant unigolion yn y fantol, a phe bai hyn yn gyfystyr â thramgwydd rheoleiddiol, yna byddai modd i'r arolygiaethau gymryd camau.

iv Ymhellach, mae gan Gorff Llais y Dinesydd y modd o dynnu sylw'r arolygiaethau perthnasol at achosion mynych o wrthod rhoi caniatâd, a dylai wneud hynny. Trwy rannu'r wybodaeth hon gyda'r arolygiaethau o dan gytundebau partneriaeth, byddai modd esgor ar wybodaeth ychwanegol i ffurfio rhan o'r 'dull ar sail risg' a ddefnyddir gan yr arolygiaethau wrth benderfynu ar eu rhaglen arolygu a'u gweithgareddau perthynol.

v Gall Corff Llais y Dinesydd hefyd rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru er mwyn llywio trafodaethau rhwng Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG ac awdurdodau lleol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau ynghylch mynediad i leoliadau ar gyfer Corff Llais y Dinesydd. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo cyrff y GIG ac ymyrryd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – rhywbeth a allai fod yn briodol o dan rai amgylchiadau.

**<u>Ceisiadau gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i safleoedd</u>**

| |
|---|
| **Beth yw statws neu natur y safle y mae Corff Llais y Dinesydd yn dymuno cael mynediad iddo?** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid yw'r safle yn cynnig gwasanaethau iechyd na gwasanaethau cymdeithasol fel y diffinnir yn Neddf 2020<br><br>(e.e. mae'r gwasanaethau yn darparu ar gyfer cleientiaid preifat yn unig ac nid oes darpariaeth gwasanaethau ar ran y GIG nac awdurdodau lleol)<br><br>**Nid yw'r Cod yn berthnasol.** Gall Corff Llais y Dinesydd a'r darparwr ddefnyddio'r Cod fel canllaw arfer da os ydynt yn dymuno. | Darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn unol ag ystyr Deddf 2020, ond nid ydynt yn cael eu darparu ar y safle.<br><br>(e.e. mae'r safle yn weinyddol yn unig neu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llety i staff)<br><br>**Nid yw'r Cod yn berthnasol.** Gan nad yw gwasanaethau perthnasol yn cael eu darparu ar y safle, nid ydynt o fewn y cwmpas ar gyfer ymweliadau. | Darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar y safle yn unol ag ystyr Deddf 2020.<br><br>Nid yw'r safle yn annedd breifat.<br><br>**Mae'r Cod yn berthnasol.** | Darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar y safle yn unol ag ystyr Deddf 2020.<br><br>Mae'r safle yn annedd breifat.<br><br>**Mae'r Cod yn berthnasol, ond dylid cyfeirio'n benodol at baragraff 27 o'r cod.** |

| **Beth yw diben a chyd-destun yr ymweliad arfaethedig?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ceisio barn unigolyn sydd wedi cysylltu â Chorff Llais y Dinesydd (neu, yn achos unigolyn â diffyg galluedd, y gwnaed cais ar ei ran).<br><br>Yma, ceir gwahoddiad gan unigolyn, felly dylid trin Corff Llais y Dinesydd fel gwestai h.y. ymwelydd. | Ceisio barn unigolion yn dilyn cyswllt â Chorff Llais y Dinesydd.<br><br>Os mai unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau ar y safle a gysylltodd â Chorff Llais y Dinesydd, ceir gwahoddiad, ond dim ond gan yr unigolyn. Os yw Corff Llais y Dinesydd yn bwriadu ceisio barn nifer o unigolion tra bydd ar y safle, dylid gofyn | Ceisio barn unigolion heb wahoddiad.<br><br>1. Mae person, ac eithrio unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau ar y safle, wedi cysylltu.<br><br>2. Mae Corff Llais y Dinesydd yn bwriadu ymweld â'r safle yn annibynnol.<br><br>**Mae'r Cod yn berthnasol.** | Rhoi cyngor a chymorth i unigolyn sydd wedi gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, cwyn, o fewn adran 16 o Ddeddf 2020.<br><br>Y diben yw cynnig eiriolaeth mewn perthynas â chwynion. Nid oes angen gwneud cais. **Nid yw'r Cod yn berthnasol.**<br><br>Yn ymarferol, efallai y bydd angen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid oes angen gwneud cais. **Nid yw'r Cod yn berthnasol.**<br><br>Fodd bynnag, dylai'r cyrff perthnasol barhau i roi sylw i'r egwyddorion sy'n ymwneud ag ymgysylltu ag unigolion. | am ganiatâd ar gyfer y mynediad ehangach hwnnw.<br><br>*(Efallai y byddai'n rhesymol gwneud y cais hwn tra byddwch ar y safle fel ymwelydd yr unigolyn).*<br><br>**Mae'r Cod yn berthnasol.** | | gwneud trefniadau ymlaen llaw e.e. pe bai'r gwasanaeth yn cysylltu â Chorff Llais y Dinesydd ar ran unigolyn. Beth bynnag fo'r sefyllfa, dylid trin Corff Llais y Dinesydd fel eiriolwr annibynnol. |

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn ystyried a ddylid gwneud cais (am fynediad i safle er mwyn ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol). Wrth wneud hynny, rhaid i'r Corff roi sylw i'r cod ymarfer, yn ogystal ag i'w swyddogaethau a'i amcanion ei hun.

*Bydd yr ystyriaethau'n cynnwys amser yr ymweliad(au), amlder yr ymweliadau ac unrhyw gyfnodau rhybudd priodol ar gyfer yr ymweliad(au), argaeledd personél â chymorth a hyfforddiant addas ac ati.*

Yn achos gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety, os yw unigolyn (defnyddiwr y gwasanaeth) wedi gwneud cais i siarad â Chorff Llais y Dinesydd, neu os yw Corff Llais y Dinesydd yn cynnig gwasanaeth eirioli i unigolyn mewn perthynas â chwynion ynglŷn â'r gwasanaethau, yna ni fydd y cod yn berthnasol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr unigolyn yn disgwyl cael cefnogaeth a chymorth gan Gorff Llais y Dinesydd, o fewn disgresiwn Corff Llais y Dinesydd, a byddai hyn yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb pan fo hynny'n briodol.

Os bydd Corff Llais y Dinesydd o'r farn fod hynny'n briodol, dylai gyflwyno cais i gorff perthnasol y GIG neu i'r awdurdod lleol perthnasol yng Nghymru yn gofyn am fynediad i'r safle, gan roi sylw i'r cod.

*Os yw'r safle'n eiddo i ddarparwr gwasanaethau trydydd parti, neu'n cael ei reoli gan ddarparwr gwasanaethau trydydd parti (e.e. meddygfa, deintyddfa neu gartref gofal preswyl), rhaid cyflwyno'r cais yn uniongyrchol iddyn nhw, gan roi sylw i'r cod (e.e. anfon copi at gorff perthnasol y GIG neu at yr awdurdod lleol perthnasol, neu dynnu eu sylw ato).*

Ar ôl derbyn cais am fynediad i safle, rhaid i gorff y GIG, yr awdurdod lleol neu'r darparwr gwasanaethau ystyried a ddylid cytuno i roi mynediad, gan roi sylw i'r cod.

*Bydd yr ystyriaethau'n cynnwys buddiannau defnyddwyr gwasanaethau neu breswylwyr y lleoliad yn cael cyfle i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd drwy gyfrwng ymweliad, ac unrhyw amgylchiadau sy'n ymwneud â mynediad i'r math hwnnw o leoliad, gan ystyried ei sensitifrwydd (e.e. a oes yna ardaloedd cymunol addas y gellir eu defnyddio), ystyriaethau hawliau dynol (e.e. cydsyniad, preifatrwydd, urddas), darparu gwasanaethau gofal, a statws heintus/caeedig y lleoliad.*

Pan gytunir i roi mynediad i'r safle, bydd yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw i'r cod mewn perthynas ag unrhyw ymgysylltu rhwng Corff Llais y Dinesydd ac unigolion ar y safle hwnnw at y diben o geisio'u barn ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Hefyd, dylai darparwyr gwasanaethau roi sylw i'r cod yn hyn o beth, yn amodol ar unrhyw ofynion cytundebol penodol.

Pan na chytunir i roi mynediad i'r safle, dylid mynd ati'n ddi-oed i gyflwyno hysbysiad gwrthod, gan nodi'r rhesymau. Hefyd, dylid cynnig dewisiadau amgen.